

## Sasiwn Cenhadol Chwiorydd y Gogledd

### DOSBARTH PENLLYN A GODRE'R GAER

Eglwys Unedig Seion/Bryneglwys, Corwen, 10fed Mai, 2017

Cyfarfod y Prynawn, gydag Eirian Jones, Carrog, yn llywyddu a Bethan Antur, Llanuwchllyn yn arwain y gân, a Gwenda Humphreys, Corwen, yn cyfeilio ar yr organ, prynhawn a'r hwyr.

Julie Edwards, y Parc, arweiniodd y cyfarfod dechreuol. Yna cafwyd eitemau gan barti a chôr o blant o Ysgolion Bro Elwern a Betws Gwerfyl Goch yn cyfrannu'n effeithiol iawn. Wedi gwneud y casgliad, a fendithiwyd gan y Parch T L Williams, Pwll-glas, cyflwynwyd Bethan Davies, Port Talbot, i'n hannerch. Fel un o dair, aeth ar ymweliad ag Ynysoedd y Philipinas ar ran E.B.C., i gael golwg ar sut maent yn ymdopi a'u bywydau ar ôl y corwynt a'r daeargryn ar yr ynysoedd. Maent yn dal i ofni corwynt/daeargryn/ffrwydriaid y llosgfynydd yn Irosin – maent i gyd yn fygythiadau yn ddyddiol. Er hynny, rhaid mynd i weithio – sychu pysgod neu ar ffermydd tyfu reis a gwneud "hanging rice" (croen banana gyda reis yn ei ganol – eithaf melys) am 7c y dydd. A thipyn o sioc oedd yr arogl drwg pan aethant allan o'r bÿs – y carthion a'r pysgod yn sychu yn y gwres.



Bethan Davies, Port Talbot



Llawenydd ymhlith y rhai gyfrannodd i Sasiwn llwyddiannus

Mae cynllun 'Forge-Fellowship for Organising Endeavours' yn rhoi llais yn y gymuned ac yn cynghori'r trigolion am eu hawliau yn erbyn llywodraethau sydd ddim am iddynt gael byw yng nghanol eu trefi – ond chwalu eu cartrefi simsan a phoeth o dan garthenni plastig, a'u gorfodi i fyw yn y mynyddoedd llwm fel llygod mawr, yn lle rhoi cartrefi parhaol iddynt. Roedd pawb hefo ymbarél rhag y glaw trwm neu'r gwres poeth. Grŵp arall sydd yn eu cynorthwyo yw UPA – 'Urban Poor Associates' – i werthu eu nwyddau o fatiau (hefo croes yn y canol), bagiau a chesys pensiliau. Mae'r gwerthiant yn golygu llawer iawn iddynt a'r arian yn mynd at *Apél Corwynt Cariad*.

Bu iddynt ymweld â llawer o'r ynysoedd a phawb a'u storïau enbyd, ond yn garedig. Hyfrydwch oedd cyfarfod â'n partneriaid Cristnogol am y tro cyntaf. Roedd Bethan wedi cyfansoddi penillion am eu hymweliad a buasai'n dda eu gweld ar bapur eto, yn crynhoi'r hanes yn gryno iawn o fywydau'r Philipinas.

Yng nghyfarfod yr hwyr, dan lywyddiaeth Marian Simkin, Nercwys, cymerwyd y gwasanaeth dechreuol gan Nia Jones, Glyndyfrdwy, a dwy eitem gan Gôr Merched Edeirnion. Wedi gwneud y casgliad, a fendithiwyd gan y Parch Eifion Jones, Dinbych, cafwyd gair gan Helen Jones, Rehoboth, Prestatyn, i'n croesawu i'r Sasiwn yn Rhuthun ar Mai 8fed, 2018. Cafwyd gair gan Carys

Davies, Cydlynnydd y Gogledd o Gynllun Dorcas – mae'r ffrogiau a'r tedis yn mynd ymlaen yn dda.

Rhoddodd Ceinwen Parry adroddiad o'r casgliadau a dderbyniwyd, £16,429.58, gyda chasgliad y prynhawn (£378.90), a'r hwyr (£364.79), yn gwneud cyfanswm anrhydeddus o £17,173.27. Diolchodd eto am ein haelioni.

Yna, cyflwynodd y llywydd ein siaradwr, Arfon Jones, Caerdydd, a'i destun "Y Beibl a'i Neges i Ni". Rydym ni wedi dysgu am hanesion y Testament Newydd yn yr Ysgol Sul; mae angen i ni gael syniadau ar sut i gael ein pobl ifanc yn ôl i addoli. Mae'n *Flywyddyn Byw y Beibl* a rhoddodd her i ni i wneud un peth gwahanol i'r "fel hyn rydym wedi arfer ei wneud". Mae cyfieithwyr y Beibl yn cyfaddef fod angen cael gwared â'r "jargon" – byddai'n fwy rhydd a phoblogaidd i'r bobl ifanc a dysgwyr i'w ddeall; ac i rai heb gefndir capel nac eglwys. Mae *Arwyr Ancora* – gemau ar gyfrifiadur yn y Gymraeg – yn barod i'w lawr lwytho. Iaith lafar yw iaith y T.N., nid Groeg clasurol. Mae cyfieithu yn ei hanfod yn galw am ddehongli. Unwaith ddechreuwn ail ddarllen y Beibl eto y gwelwn ei odidowgrwydd.

Daeth y Sasiwn hapus a siaradwr brwdfrydig i ben gyda gair o weddi a chyd-ganu Emyr 49 – "Diolch i Ti yr Hollalluog Dduw" yn effeithiol iawn.

Rhiannon Wynne